# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dydd Iau, 30 Mawrth 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.M. Cundy (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, W.T. Evans (In place of G.B. Thomas), S.L. Davies, W.R.A. Davies, T. Devichand, H.I. Jones, S. Matthews, H.B. Shepardson, E.G. Thomas, J. Thomas and D. Tomos

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr L.D. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Tai
L.M. Stephens, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau Dynol, Effeithlonrwydd a Chydweithio

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Staines, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
I. Jones, Pennaeth Hamdden
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Jones, Gwybodaeth Dadansodd Perfformiad
**Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin - 10.00 - 11.40 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd G.B. Thomas.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith mai dyma gyfarfod olaf y Pwyllgor Craffu - Cymunedau cyn yr etholiadau llywodraeth leol a diolchodd yr aelodau etholedig a'r swyddogion am eu cyfraniad i waith y Pwyllgor dros y pum mlynedd diwethaf. Mynegodd yr aelodau eu gwerthfawrogiad i'r Cadeirydd am y modd y bu’n ymgymryd â'i ddyletswyddau yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

## 5. GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL DRAFFT – CANOL TREF LLANELLI

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Gorchymyn Datblygu Lleol drafft ar gyfer Canol Tref Llanelli, yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor ar 22 Chwefror 2017 iddo fynd i ymgynghoriad cyhoeddus.

Nodwyd bod y Gorchymyn Drafft yn ceisio adlewyrchu'r amcanion adfywio corfforaethol ar gyfer canol tref Llanelli gan sicrhau bod y materion ynghylch bywiogrwydd a hyfywedd parhaus canol y dref yn cael ystyriaeth briodol mewn perthynas â darpariaethau'r polisi cynllunio cenedlaethol. Petai'r Gorchymyn yn cael ei gyflwyno, byddai'n caniatáu ystod o ddefnyddiau cynllunio o fewn ardal benodol iawn heb fod angen cyflwyno cais cynllunio i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, yn amodol ar i'r Awdurdod roi 'tystysgrif cydymffurfiaeth'.

Byddai cyfnod ymgynghori'r Gorchymyn Drafft yn dechrau yn ystod y gwanwyn/haf 2017 ac yn para am o leiaf chwe wythnos. Gall aelodau'r Pwyllgor gyflwyno sylwadau personol ar y cynigion fel rhan o'r ymgynghoriad, yn ychwanegol at unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor. Wedi hynny, cyflwynir adroddiad i'r Cyngor ar y sylwadau a gafwyd er mwyn iddo ystyried yn ffurfiol p'un ai i fwrw ymlaen i fabwysiadu a gweithredu'r Gorchymyn ai peidio.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Cyfeiriwyd at gynigion i addasu lloriau uchaf yr unedau adwerthu yng nghanol y dref at ddibenion preswyl. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr effaith bosibl ar y cyfleusterau parcio presennol ac a fyddai llefydd parcio ychwanegol yn cael eu cynllunio fel rhan o unrhyw gynigion i ailddatblygu.

  Cadarnhaodd y Rheolwr Blaen-gynllunio nad oedd y Gorchymyn Drafft yn cynnwys llefydd parcio ychwanegol oherwydd ystyrid bod digon o ddarpariaeth ar hyn o bryd yng nghanol y dref. Fodd bynnag, os byddai dyheadau'r cynllun yn cael eu cyflawni ac yr ystyrid yn hwyrach ei bod yn briodol ailystyried y mater, byddai cyflwyno cynlluniau ar gyfer trwyddedau parcio neu ddefnyddio cyfleusterau ar y cyd ymhlith yr atebion posibl y gellid eu cyflwyno.
- Mewn perthynas â hyd a lled Parth Llifogydd C2 yng nghanol y dref, cadarnhaodd y Rheolwr Blaen-gynllunio fod yr ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd, fel y'u diffinnir yn y cynllun a geir yn yr adroddiad, yn perthyn i'r risg bosibl gan gyrsiau dŵr afonol. Fodd bynnag, byddai angen i'r Gorchymyn roi ystyriaeth, yn ogystal, i'r posibilrwydd o lifogydd o ganlyniad i ymchwydd y llanw a newid hinsawdd.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch paratoi Prif Gynllun Tref Llanelli, cadarnhaodd y Rheolwr Blaen-gynllunio fod ymgynghorwyr y Cyngor yn bwrw ati i gasglu tystiolaeth hanfodol i'w gefnogi ac y disgwylid iddo gael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos.
- Cyfeiriwyd at ran 1.2 o'r adroddiad ac at y posibilrwydd y byddai unrhyw ganiatâd a roddir gan Orchymyn Datblygu Lleol yn dod o dan ddarpariaethau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, petai'r Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen i fabwysiadu'r Ardoll yn Sir Gaerfyrddin. Rhoddodd y Rheolwr Blaen-gynllunio wybod nad yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn swyddogaeth sydd wedi'i datganoli ar hyn o bryd ond y byddai, yn fuan, yn cael ei datganoli i Lywodraeth Cymru ac fe allai hi benderfynu edrych yn fanylach ar y ddeddfwriaeth i sicrhau bod modd ei chyflawni yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 6. ADRAN CYMUNEDAU GYNLLUN BUSNES YR ADRAN AM 2017-2020

Bu i'r Pwyllgor ystyried Cynllun Busnes yr Adran Gymunedau sy'n rhoi diweddariad o'i blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod 2017-20. Nodwyd, er bod y

cynllun yn cwmpasu holl flaenoriaethau'r Adran, mai rôl y Pwyllgor y diwrnod hwnnw oedd craffu ar elfennau'r gwasanaethau Tai a Hamdden. Parthed y Gwasanaethau Hamdden, cytunodd y Pwyllgor y gellid eu trafod fel rhan o'r ystyriaeth a roddid i'r Adroddiad Diweddaru blynyddol ynghylch y Gwasanaethau Hamdden, oedd wedi ei roi ar yr agenda y diwrnod hwnnw fel eitem ar wahân.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol sy'n codi yn yr adroddiad ac sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Tai:

- Cyfeiriwyd at y ffaith fod y Credyd Cynhwysol yn mynd i gael ei gyflwyno'n fuan, ac effaith bosibl hynny ar allu tenant i dalu ei rent. Er bod y Cyngor yn rhwym o gychwyn achos er mwyn adfer dyledion rhent, mynegwyd pryder y byddai cost gweithred o'r fath ond yn gwaethygu caledi ariannol y tenant. Felly, teimlwyd y dylid ystyried ffyrdd o gynorthwyo tenantiaid i osgoi caledi rhag digwydd, cyhyd ag y bo modd.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod yr Is-adran yn cadw mewn cof effaith ariannol bosibl y ddeddfwriaeth ar denantiaid ac yn dilyn ymagwedd ataliol yn hytrach nag adweithiol i ddyledion rhent. Roedd hynny'n cynnwys rhoi cymorth i ddarpar denantiaid er mwyn gwerthuso'u gallu i gynnal y denantiaeth, er enghraifft, drwy asesu lefelau rhent a'r budd-daliadau posibl.
- Cyfeiriwyd at gynnig yr Adran i ddatblygu porth ar-lein er mwyn i denantiaid gael mynediad i'w cyfrif rhent yn ogystal ag at waith atgyweirio sy'n disgwyl i gael ei wneud a cheisiadau trosglwyddo. Mynegwyd y farn y dylai'r porth gynnwys cyfeiriad at daliadau gwasanaeth i denantiaid sy'n byw mewn canolfannau tai gwarchod.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd y gellid addasu'r porth i gynnwys taliadau gwasanaeth.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y targed i ddod â 50 o dai gwag yn ôl i'r stoc dai gyffredinol ar ffurf tai fforddiadwy, cadarnhaodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod yr Is-adran, yn dilyn y pryderon diweddar a fynegwyd ynghylch bod oddeutu 2,000 o dai gwag yn Sir Gaerfyrddin, wedi cynyddu ei adnoddau ar gyfer elfen honno'r gwaith, gan gynnwys dyblu'r staff o un swyddog i ddau. O ganlyniad i hynny, roedd nifer y tai a ddychwelwyd i'r Stoc Dai wedi cynyddu i 110 y flwyddyn gan alluogi'r Cyngor i gyflawni ei darged y byddai o leiaf 50 o'r rhain yn dai fforddiadwy. O ran yr eiddo sy'n weddill a adnewyddwyd, byddai rhai ohonynt wedi cael eu gwerthu ar y farchnad agored ac eraill wedi'u rhentu'n breifat ar y farchnad agored am rent uwch.
- Cyfeiriwyd at y cynnig i gyflwyno cynllun gwobrwyo i denantiaid. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y mathau o opsiynau a ystyrir, a pha mor debygol ydynt o gael eu cyflawni.

  Dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd nad oedd polisi ffurfiol wedi'i sefydlu, ond ystyrid a fyddai cyflwyno un yn gallu bod o fudd i'r awdurdod a'i denantiaid. Os byddai'r polisi yn cael ei fabwysiadu gallai gynnwys, er enghraifft, gynigion gwobrwyo i denantiaid nad oedd yn mynd i ddyled neu a oedd yn gadael eu heiddo mewn cyflwr da, gan leihau faint o waith oedd ei angen i baratoi eiddo ar gyfer ei ailosod.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pa mor aml yr archwilid stoc dai'r Cyngor, cadarnhaodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd mai'r bwriad oedd i bob eiddo gael ei archwilio unwaith y flwyddyn. Gellid cynnal yr

archwiliadau hynny mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys, er enghraifft, fel rhan o arolwg stoc blynyddol rheolaidd ac yn ystod ymweliadau â chartrefi gan swyddogion tai a staff sy'n gwneud gwaith atgyweirio.

- Cyfeiriwyd at effaith bosibl y ddeddfwriaeth sydd ar ddod ar y raddfa digartrefedd ymhlith y rhai sydd dan 21 oed ac yn derbyn credyd cynhwysol ac na fyddai'n gymwys mwyach i gael budd-dal tai i dalu am eu rhent.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod yr Adran yn ymwybodol o effaith bosibl y ddeddfwriaeth ar y categorïau oedran dan 21 a than 35. Fel rhan o oblygiadau statudol y Cyngor i gael Strategaeth Digartrefedd gyfoes roedd adolygiad o'r strategaeth bresennol wrthi'n cael ei gynnal ac yn cynnwys goblygiadau posibl y ddeddfwriaeth newydd. Bydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol.
- Cyfeiriwyd at y cynnig i'r Cyngor ddatblygu cynllun ar gyfer rheoli a chaffael llety dros dro, a gofynnwyd am wybodaeth am y gwariant presennol ynghyd â faint o amser mae arhosiad yn para ar gyfartaledd.

  Dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod yr Awdurdod wedi gwario dros £600k y flwyddyn ar lety mewn argyfwng yn ystod 2006. Ers yr adeg honno roedd yr ymagwedd wedi newid o un adweithiol i un rhagweithiol, gan arwain at y sefyllfa bresennol lle gosodwyd ond 3-4 teulu y flwyddyn mewn llety argyfwng am ychydig nosweithiau ar y tro, ar gyfanswm cost o rai cannoedd o bunnau'r flwyddyn. Roedd yr ymagwedd bresennol yn ymdrechu i gadw pobl oedd dan fygythiad o gael eu gwneud yn ddigartref yn eu cartrefi eu hunain am gyhyd â phosibl oherwydd, yn fynych, nid oedd pobl oedd yn datgan eu bod yn ddigartref yn ddigartref mewn gwirionedd ond yn hytrach wedi cael hysbysiad i adael gan eu landlord. Yn yr achosion hynny, defnyddiai'r awdurdod y cyfnod hysbysu o bedair i chwe wythnos i osod teuluoedd mewn llety dros dro, naill o blith stoc dai'r cyngor ei hun neu drwy gyfrwng asiantaethau tai cymdeithasol eraill.

  O ran yr amser cyfartalog roedd pobl yn ei dreulio mewn llety dros dro, roedd hynny'n amrywio yn ôl yr angen a gallai ymestyn i nifer o flynyddoedd. Er bod y Cyngor yn hapus i gynnal y polisi hwnnw, a bwrw ei fod yn diwallu anghenion y person, roedd yn rhaid iddo sicrhau bod y cyflenwad o dai ac eiddo oedd ar gael ar gyfer llety dros dro yn ddigonol i fodloni'r galw.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y cynnig i ddatblygu cynllun digidol hirdymor, cadarnhaodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd mai ei fwriad oedd sicrhau bod cymaint o wasanaethau â phosibl ar gael i denantiaid ar-lein. Os yw'n llwyddiannus, byddai'n galluogi swyddogion i dreulio amser yn helpu pobl ac yn atal digartrefedd, gan ychwanegu gwerth at wasanaethau. Gallai leihau'r angen am i swyddogion deithio i gartrefi pobl ond, lle byddai angen gwneud ymweliadau o'r fath, byddai swyddogion yn gallu gwneud gwaith ar-lein gan leihau faint o amser a dreulir ar ddyletswyddau gweinyddol pan fyddant yn dychwelyd i'r swyddfa.

  Er bod y pwyslais yn cael ei roi ar gynyddu'r defnydd o wasanaethau digidol, rhoddodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r tenantiaid yn dal i allu defnyddio gwasanaethau drwy gysylltu wyneb yn wyneb/ dros y ffôn.

- Cyfeiriwyd at rychwant ac amrywiaeth y gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Cymunedau, a mynegwyd y farn y dylai'r gwaith o graffu'r Adran gael ei wneud gan bwyllgor craffu unigol yn hytrach na'r drefn bresennol o rannu'r cyfrifoldeb rhwng tri phwyllgor craffu. Cymeradwywyd y farn hon gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Cynllun Busnes yr Adran Gymunedau ar gyfer 2017-20 yn cael ei dderbyn.**

## 7. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL: GWASANAETHAU HAMDDEN

Bu i'r Pwyllgor ystyried Adroddiad Diweddaru Blynyddol y Gwasanaethau Hamdden ar gyfer 2016/17 gan fesur perfformiad mewn perthynas â'r saith canlyniad canlynol:

Canlyniad 1 – Mae pobl yn cael cyfleoedd i fod yn egnïol
Canlyniad 2 – Mae mwy o blant a phobl ifanc yn dwlu ar weithgareddau hamdden/diwylliannol am oes (0–24)
Canlyniad 3 – Mae mwy o oedolion (25 oed a hŷn) yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Hamdden a Diwylliant
Canlyniad 4 – Mae pobl yn ymaelodi â chlybiau / grwpiau cymunedol neu gyfleusterau
Canlyniad 5 – Mae pobl yn cael y sgiliau i fod yn greadigol ac yn gorfforol alluog am oes
Canlyniad 6 – Mae pobl yn cyflawni eu potensial
Canlyniad 7 – Mae ein cyfleusterau a'n gwasanaethau yn effeithlon ac yn cael eu rheoli'n dda

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y cynigion i ddatblygu Prif Gynllun ar gyfer Amgueddfa Parc Howard ac at ymweliad safle diweddar a wnaed gan y Pwyllgor Craffu. Mynegwyd y farn fod y cyfleuster yn unigryw a bod angen ei farchnata i drigolion Sir Gaerfyrddin ac ymwelwyr â'r sir er mwyn galluogi'r safle i gyflawni ei botensial llawn.

  Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Hamdden â'r farn ac atgoffodd y Pwyllgor fod y gwasanaeth amgueddfeydd wedi dioddef toriadau cyllido am gyfnod cyn iddo gael ei ymgorffori yn y Gwasanaethau Hamdden rai blynyddoedd ynghynt. Cyn yr ymgyfuno hwnnw, sicrhawyd bod rhagor o adnoddau ar gael i'r gwasanaeth a'r gobaith oedd y byddai gwelliannau yn dod i'r amlwg dros y blynyddoedd nesaf. Roedd yr adnoddau ychwanegol hynny wedi galluogi'r gwasanaeth i benodi Rheolwr Datblygu Amgueddfeydd ac roedd gweledigaeth wrthi'n cael ei pharatoi ar gyfer datblygu a marchnata'r gwasanaeth yn y dyfodol. Byddai hon yn cynnwys y dyhead am gael cyfleuster storio newydd i fod yn gartref i arteffactau'r sir, gan ddisodli'r trefniadau presennol, sef eu bod yn cael eu cadw mewn nifer o leoliadau gwahanol. Er enghraifft, roedd 70,000 o eitemau yn cael eu storio rhwng amgueddfeydd Parc Howard ac Abergwili. Fodd bynnag, byddai angen amser i'r gwelliannau hyn ddwyn ffrwyth.

  Hefyd, dywedodd y Pennaeth Hamdden fod y gwasanaeth, fel rhan o'r weledigaeth, yn ceisio cael ei achredu gan Wasanaeth Amgueddfeydd

Cymru sy'n gosod safonau o ran rheoli amgueddfeydd, gofalu am gasgliadau a rhoi gwasanaeth i'r cyhoedd.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch darparu adeilad newydd yr archifau y tu ôl i Lyfrgell Caerfyrddin, dywedodd y Pennaeth Hamdden fod y trafodaethau ynghylch cynllun yr adeilad yn dod at eu terfyn a'r gobaith oedd y gallai'r cyfleuster newydd fod ar waith erbyn dechrau 2019.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch mesur perfformiad mewn perthynas â'r saith canlyniad allweddol, atgoffwyd aelodau'r Pwyllgor gan y Pennaeth Hamdden eu bod yn cael adroddiadau diweddaru chwarterol am y perfformiad hwnnw. Roedd y rhain yn cynnwys cyfeiriad at y lefelau cyfranogi yng nghyfleusterau chwaraeon y Cyngor yn ogystal â chyfleusterau preifat, gyda'r Cyngor yn darparu gwybodaeth am ei gyfleusterau ei hun a Chwaraeon Cymru yn darparu gwybodaeth am gyfleusterau/clybiau chwaraeon preifat.
- Cyfeiriwyd at fater a ystyriwyd yn flaenorol gan y Cyngor, sef allanoli gwasanaethau hamdden, a gofynnwyd am eglurhad ynghylch y safbwynt presennol.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden fod y Cyngor wedi ystyried y mater ynghynt ond nad oedd y trywydd hwnnw dan ystyriaeth mwyach.
- Cyfeiriwyd at ymweliadau diweddar y Pwyllgor â llyfrgelloedd Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli, lle gwelwyd y gwaith adnewyddu. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch a oedd unrhyw gynigion i wneud gwelliannau i'r llyfrgelloedd cymunedol.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden fod cynigion i wneud gwaith adnewyddu i lyfrgelloedd cymunedol ond mai hyn a hyn o adnoddau ariannol oedd ar gael i'r adran a bod unrhyw gynlluniau yn gorfod cystadlu â blaenoriaethau eraill yr adran am gyllid. Serch hynny, roedd yr adran yn mynd ati i chwilio am gymorth grant a chyllid o ffynonellau gwahanol er mwyn hwyluso'r gwelliannau i'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn ei gyfanrwydd.
- Cyfeiriwyd at y gwelliannau diweddar a wnaed i'r gwasanaeth llyfrgelloedd ac i'r gwaith o farchnata'r gwasanaeth, sydd wedi arwain at ragor o bobl yn ymweld ac yn cyfranogi. Mynegwyd y farn y gallai'r gwasanaeth amgueddfeydd elwa drwy fabwysiadu ymagwedd debyg.

  Atgoffodd y Pennaeth Hamdden y Pwyllgor fod y gwelliannau i'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'u cyflawni yng nghyd-destun lleihau cyllid y gwasanaeth, a hynny drwy flaenoriaethu datblygiad yn y meysydd lle mae'r defnydd mwyaf. Mewn perthynas â'r gwasanaeth amgueddfeydd, atgoffodd y Pwyllgor o'i sylwadau ynghynt ynglŷn â phenodi rheolwr marchnata'r amgueddfeydd, ynghyd â'r cynigion sy'n cael eu llunio i ddatblygu a marchnata'r gwasanaeth yn y dyfodol. Dywedodd hefyd fod tri uwch-aelod o staff ychwanegol wedi cael eu penodi yn Is-adran Parciau Gwledig yr Adran Hamdden er mwyn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a marchnata'r cyfleusterau hynny.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch darparu tri cherbyd newydd y llyfrgell deithiol, dywedodd y Pennaeth Hamdden fod oedi wrth eu darparu ond mai'r gobaith oedd y byddant ar waith erbyn canol y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

**8. GWEITHREDU'R DDULL VANGUARD**

Yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2016, cafodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch rhoi Methodoleg Vanguard ar waith mewn perthynas â gweithredu a chyflawni polisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod ar gyfer gosod tai cyngor a'u defnyddio drachefn.

Dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod Dull Vanguard, a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gyfer y sector preifat, yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ledled y sector cyhoeddus wrth i sefydliadau chwilio am ffyrdd o ymateb i'r heriau parhaus o leihau adnoddau ariannol yn wyneb cynnydd o ran galwadau a disgwyliadau. Roedd yn gorfodi sefydliadau i feddwl yn amgenach ynglŷn â darparu gwasanaethau ac roedd staff ar bob lefel yn cyfrannu tuag ato, fel rheol. Mae'r dull hwnnw wedi'i ddefnyddio ar draws 12 maes gwasanaeth ar wahân, gan arwain at welliannau sylweddol o ran ansawdd ac effeithlonrwydd.

O ran gweithredu system Gosod Tai (eiddo gwag) y Cyngor, yn flaenorol roedd honno'n cynnwys proses o 34 o gamau ledled tair adran ar wahân gan arwain at 70-80 o ddiwrnodau gwaith ar gyfartaledd er mwyn dod ag eiddo gwag yn ôl i'r Stoc Dai ar gyfer ei ailosod. O ganlyniad i weithredu Methodoleg Vanguard lleihawyd y broses i 4 cam, cafwyd llai o wariant ar atgyweirio tai gwag, cynnydd o ran cyfraddau bodlondeb y tenantiaid, lleihad o 80 i 20 o ddyddiau yn yr amser cyfartalog mae'n ei gymryd i ailosod eiddo ynghyd â chynnydd yn sgil hynny o £600k y flwyddyn drwy rent. Yn ei hanfod, roedd y fethodoleg wedi arwain at uwchraddio'r system eiddo gwag, o un nad oedd yn addas i'r diben i un oedd yn llai costus. Roedd hefyd yn prosesu ac yn clustnodi eiddo newydd yn gyflymach ac yn darparu incwm gwell drwy rent.

Dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd na ddylid ystyried Vanguard yn ateb i bopeth ond roedd yn ddull effeithiol o archwilio a gwella'r gwasanaethau a ddarperir, am lai o gost yn fynych iawn.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at bolisi dyrannu tai'r Cyngor a'r angen i Aelodau Lleol gael gwybod am dai cyngor gwag yn eu ward cyn gynted â phosibl, a chael gwybod pan gânt eu dyrannu. Cadarnhaodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod prosesau ar waith i drosglwyddo'r wybodaeth honno i Aelodau Lleol ac y byddai'n atgoffa'r staff o'r gofyniad hwnnw.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

**9. LLOFNODI YN GOFNODAU CYWIR, COFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR:-**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 30 Ionawr ac ar 17 Chwefror 2017 gan eu bod yn gywir.**

CADEIRYDD

DYDDIAD